Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Aberdâr

Hirwaun Road
Trecynon
Aberdâr
RhCT
CF44 8LU

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parc Aberdâr

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Parc Aberdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 267 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 199 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 6.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.5% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/01/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 07/11/2016 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/03/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Parc Aberdâr yn ysgol groesawgar a chynhwysol. Mae arweinwyr a staff yn meithrin perthnasoedd cryf yn yr ysgol a'r gymuned. Mae ganddynt ymrwymiad cadarn i welliant parhaus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn meithrin ethos tîm pwrpasol.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo'u gweledigaeth yn effeithiol, sef, 'Pob plentyn, pob cyfle, pob dydd,' gan sicrhau ffocws ar anghenion disgyblion unigol, monitro'u cynnydd yn ofalus a darparu cymorth effeithiol, lle mae angen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad a dysgu disgyblion, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd parchus â disgyblion a staff. Mae athrawon yn cynllunio gwersi difyr ac mae disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda, yn gofyn cwestiynau ystyriol, ac yn datblygu i fod yn siaradwyr huawdl. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, mae disgyblion yn ddarllenwyr rhugl ac yn ysgrifenwyr effeithiol sy'n cymhwyso'u medrau yn annibynnol ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol, ac mae disgyblion hŷn yn esbonio'u hymresymu yn glir. Mae medrau digidol disgyblion yn gwella'n effeithiol dros gyfnod. Mae arweinwyr a staff yn modelu'r Gymraeg yn gyson ac yn effeithiol, gan helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau at gynlluniau athrawon ar gyfer dysgu, ond mae lleiafrif o athrawon yn gor-gyfarwyddo gwersi, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feithrin eu medrau dysgu'n annibynnol, a chyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae llawer o athrawon yn darparu targedau clir ac adborth adeiladol, sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall eu cryfderau a sut gallant wella'u gwaith. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac mae athrawon yn defnyddio profiadau dysgu i gynorthwyo disgyblion i ddeall materion hanesyddol, moesol, a chymdeithasol, gan gynnwys amrywiaeth a newid hinsawdd, yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi barn disgyblion ar agweddau ar ei gwaith, ac mae cyfleoedd arwain yn magu eu hyder ac yn hybu eu medrau cydweithredol. Mae'r ysgol yn monitro a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da yn effeithiol. Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff ac yn dechrau darparu cyfleoedd i staff rannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynnal gwerthusiadau gwerthfawr o waith yr ysgol ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith gwelliant ysgol ar gynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn mynd ati i gefnogi'r ysgol i sicrhau bod diwylliant diogelu cadarn ac effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Mireinio prosesau gwerthuso i ganolbwyntio'n agos ar effaith y gwelliannau ar gynnydd disgyblion

A2. Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Parc Aberdâr yn ysgol gyfeillgar, ofalgar a chynhwysol, lle mae'r ffocws ar feithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol yn gryfder. Mae gan arweinwyr hanes cadarn o welliant sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Maent yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac yn sicrhau ethos tîm effeithiol.

Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir, sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol pob plentyn. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i nodi a monitro cynnydd pob un o'r disgyblion yn briodol a phennu'r ffordd fwyaf priodol o gefnogi eu dysgu a'u lles. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a dysgu disgyblion. Mae staff yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a gwerthfawr sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb, mwynhad a brwdfrydedd mewn dysgu. Mae gweithdrefnau'r ysgol i fonitro a gwella prydlondeb a phresenoldeb yn effeithiol, ar y cyfan.

Mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol. O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda, ac wrth iddynt wneud cynnydd, maent yn dod yn siaradwyr aeddfed a huawdl. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol, gan ddangos meddyliau chwilfrydig ac ymholgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym i'w cynorthwyo â'u darllen, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda yn estynedig ac yn cymhwyso'u medrau yn holl feysydd y cwricwlwm yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol iddynt gymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau yn effeithiol ac yn esbonio'u meddwl yn glir. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau digidol yn briodol, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o dechnoleg yn bwrpasol ac yn hyderus i gefnogi a chofnodi eu dysgu mewn llawer o feysydd y cwricwlwm.

Mae staff yn modelu Cymraeg llafar yn effeithiol ac mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg o oedran cynnar. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus ac yn dangos balchder yn y Gymraeg. Mae'r disgyblion hynaf yn ymestyn eu hiaith yn bwrpasol wrth siarad amdanyn nhw eu hunain a'u diddordebau.

Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu hawgrymiadau ar beth hoffent ei ddysgu, a sut, ar ddechrau pob tymor. Mae hyn yn meithrin diddordeb disgyblion ac yn eu cynorthwyo i greu agweddau cadarnhaol at ddysgu, a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol mor effeithiol, er enghraifft i ddewis eu hadnoddau eu hunain neu ddewis sut i gyflwyno'u syniadau. Mae llawer o staff yn gosod targedau clir ar gyfer disgyblion ac yn rhoi adborth adeiladol iddynt sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall eu cryfderau a sut i wella'u gwaith. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn glir am sut i symud eu dysgu ymlaen ac yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i wneud hynny.

Mae arweinwyr a staff wedi datblygu cwricwlwm effeithiol a difyr, sy'n darparu ehangder a chydbwysedd addas o ddysgu ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad (MDPh). Mae disgyblion hŷn yn trafod materion hanesyddol a moesol yn eu cymuned, Cymru a'r byd ehangach, er enghraifft wrth drafod manteision prosiectau ffermydd gwynt yn y gymuned leol a sut bydd hyn yn goresgyn newid hinsawdd. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu amrywiaeth mewn cymdeithas. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion hŷn drafod gwahaniaethu, cydraddoldeb, stereoteipio a thegwch. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ysbrydol, yn foesol ac yn gymdeithasol yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn fod yr ysgol yn ystyried eu hawgrymiadau trwy eu rolau arwain. Mae disgyblion yn y rolau hyn yn cymryd rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau ac arwain digwyddiadau, gan gynnwys cyflwyno'n rheolaidd i'r corff llywodraethol. Maent yn datblygu hyder yn eu medrau arwain, cyfathrebu a chydweithredol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u cysylltu'n bwrpasol ag anghenion staff unigol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. O bryd i'w gilydd, mae arweinwyr a staff yn gwneud ymchwil sy'n gwella'u harfer ac mae staff yn rhannu eu harbenigedd â chydweithwyr yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn dechrau datblygu cyfleoedd i staff rannu arfer dda trwy addysgu ac arsylwadau cydweithredol.

Mae arweinwyr yn mireinio prosesau hunanwerthuso i sicrhau ffocws craffach ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Maent wedi creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac wedi sefydlu ymagwedd gydweithredol werthfawr at wella'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod gweithgarwch monitro yn briodol i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith gwelliant ysgol ar gynnydd disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn wybodus am yr ysgol ac wedi ymrwymo i'w rolau. Maent yn cefnogi'r pennaeth fel ffrind beirniadol cryf wrth ddwyn arweinwyr i gyfrif ac wrth gefnogi prosesau gwella'r ysgol trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu priodol, gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff. Maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o barch a thegwch i bawb ar y ddwy ochr.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025